# Datganiad Polisi ar Gynaliadwyedd

**Corff Cymeradwyo:** Council

**Dyddiad Cymeradwyo**: 10 Gorffennaf 2020

**Perchennog y polisi:** Cynghorydd yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**Y cyswllt polisi:** Dewi Day, ded17@aber.ac.uk

**Statws y polisi:** Newydd

**Fersiwn:** 1.0

**Dyddiad yr adolygiad diwethaf:** 10 Gorffennaf 2020

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Gorffennaf 2022

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Datganiad Polisi Prifysgol Aberystwyth ar Gynaliadwyedd

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod ei chyfrifoldeb i ddiogelu'r amgylchedd rhag effaith ei gweithrediadau a'i gweithgareddau ac i ddylanwadu ar ei staff, ei myfyrwyr a'r gymuned ehangach, i leihau eu heffaith arno, trwy'r hyn mae'n ei wneud, a'i gwaith addysgu ac ymchwil. Rydym yn ymrwymo i:

1. Gynnal ein gweithgareddau mewn modd sy'n ystyried ein cyfrifoldeb dros yr amgylchedd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu, lle bo hynny'n bosibl
2. Cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol, targedau'r sector a chanllawiau eraill sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd ac y mae'r Brifysgol yn tanysgrifio iddynt
3. Gosod, ac adolygu'n rheolaidd dargedau penodol, wedi'u cyfyngu gan amser ac sy'n ymwneud â phrif feysydd cynaliadwyedd
4. Monitro a gwella'n barhaus ein perfformiad amgylcheddol er mwyn lleihau ein hallyriadau amgylcheddol i'r aer a dŵr, a'r gwastraff a gynhyrchir gennym, a bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n effeithiol
5. Cyflwyno adroddiadau i'r uwch dîm rheoli ynghylch ein perfformiad o ran cynaliadwyedd, ein defnydd o ynni a chostau
6. Lleihau'r allyriadau carbon ac allyriadau eraill oherwydd teithiau staff a myfyrwyr
7. Rheoli a lleihau gwastraff yn unol â'r hierarchaeth wastraff
8. Defnyddio ein hymchwil, lle bo'n briodol, wrth ddatblygu prosiectau a chynnyrch sydd o fudd i'r amgylchedd ac sy'n gwella cynaliadwyedd ein gweithgareddau ymchwil
9. Cynnwys pynciau sy'n trafod cynaliadwyedd ar ein cyrsiau astudiaeth a ddysgir, lle bo'n briodol
10. Lleihau ein defnydd o ynni trwy raglen waith wedi'i thargedu a'i chynllunio i leihau ein defnydd o ynni a gwella effeithlonrwydd
11. Sicrhau graddfeydd BREEAM, sef "Rhagorol" ar gyfer adeiladau newydd a "Da Iawn" o leiaf ar gyfer adeiladau sy'n cael eu hadnewyddu'n llwyr, neu lefel gyfatebol cynlluniau ardystio amgen.
12. Ystyried yn gynnar oblygiadau amgylcheddol a goblygiadau defnyddio egni gweithgareddau caffael a datblygu'r campws ac integreiddio'n llwyr wybodaeth am y cylch bywyd i'r penderfyniadau pwrcasu er mwyn sicrhau'r safonau uchaf posibl
13. Cynhyrchu trydan a gwres trwy ddefnyddio'r dull mwyaf effeithiol, gan ddethol a phrofi ffynonellau adnewyddadwy lle bo'n bosibl
14. Creu mwy o amrywiaeth fiolegol ar y safleoedd mae'r Brifysgol yn eu rheoli neu'n berchen arnynt
15. Mynnu bod ein holl weithwyr a myfyrwyr, partneriaid masnachol a chontractwyr yn gweithio gan roi ystyriaeth ddyledus i'r amgylchedd, a darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth yn ôl yr angen
16. Darparu a datblygu rhaglen addysg a chyfarwyddyd i staff a myfyrwyr ynglŷn â materion cynaliadwyedd, yn ôl yr angen
17. Sicrhau bod y Brifysgol yn datblygu ei chadernid i wrthsefyll risgiau newid hinsawdd

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi darparu adnoddau priodol i weithredu'r polisi, a bydd yn parhau i wneud hynny. Bydd gwelliannau i'r datganiad polisi yn cyd-fynd ag adolygiad blynyddol a anfonir at Weithrediaeth a Chyngor y Brifysgol, ac yn cael eu cyhoeddi.

Bydd y datganiad polisi ar gael i'r cyhoedd a'r holl bartïon a chanddynt fuddiant ac fe'i cyfathrebir i holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol.

Elizabeth T. Treasure

*Llofnod:* *Dyddiad* **22 Medi 2020**